**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1327 (Cy. 238)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 12.05 p.m. ar 6 Rhagfyr 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(1)(i)(**1**), 186(1) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**) ("y Ddeddf") ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy, fel sy'n ofynnol gan adran 2(4) o'r Ddeddf.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(a) o'r Ddeddf ac mae wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### Ystyr gwasanaeth preswyl ysgol arbennig

**2.**—(1) Ystyr "gwasanaeth preswyl ysgol arbennig" ("*special school residential service*") yw'r ddarpariaeth o lety ynghyd â gofal neu nyrsio mewn ysgol arbennig yng Nghymru ar gyfer disgyblion yr ysgol.

(2) Ond nid yw llety ynghyd â gofal neu nyrsio a ddarperir mewn ysgol arbennig yng Nghymru ar gyfer disgyblion yn wasanaeth preswyl ysgol arbennig os y'i darperir—

(a) mewn man lle y darperir gwasanaeth cartref gofal,

(**1**) Mae adran 2(1)(i) yn cyfeirio at wasanaeth "a ragnodir". Diffinnir "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i olygu "wedi ei ragnodi drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru".

(**2**) 2016 dccc 2.

(b) mewn man lle y darperir gwasanaeth llety diogel, neu

(c) mewn ysbyty.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*") a "darpariaeth ddysgu ychwanegol" ("*additional learning provision*") yr ystyron a roddir gan adran 2 ac adran 3 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**3**);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "disgybl" ("*pupil*") yw person sy'n cael addysg yn yr ysgol arbennig;

mae i "gofal" ("*care*") yr ystyr a roddir gan adran 3(1)(a) o'r Ddeddf;

mae i "gwasanaeth cartref gofal" ("*care home service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

mae i "gwasanaeth llety diogel" ("*secure accommodation service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

ystyr "nyrs" ("*nurse*") yw nyrs gymwysedig neu fydwraig gymwysedig sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**4**);

ystyr "nyrsio" ("*nursing*") yw gwasanaeth sy'n cynnwys naill ai ddarparu gofal neu gynllunio, goruchwylio neu ddirprwyo'r gwaith o ddarparu gofal, ond mae'n eithrio unrhyw wasanaeth nad oes angen iddo, o ran ei natur a'r amgylchiadau y mae i'w ddarparu ynddynt, gael ei ddarparu gan nyrs;

ystyr "ysbyty" ("*hospital*") yw—

(a) ysbyty gwasanaeth iechyd o fewn yr ystyr a roddir i "health service hospital" gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**5**),

(b) ysbyty annibynnol o fewn yr ystyr a roddir i "independent hospital" gan Ddeddf Safonau Gofal 2000(**6**), ac

(c) clinig annibynnol o fewn yr ystyr a roddir i "independent clinic" gan Ddeddf Safonau Gofal 2000;

mae i "ysgol" yr ystyr a roddir i "school" gan adran 4 o Ddeddf Addysg 1996(**7**);

ystyr "ysgol arbennig" ("special school") yw ysgol, pa un a gaiff ei chynnal gan awdurdod lleol ai peidio, y mae'r cyfan o'i darpariaeth addysgol, neu'r rhan fwyaf ohoni, wedi ei threfnu'n arbennig er mwyn creu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol.

### Rhagnodi bod gwasanaeth preswyl ysgol arbennig yn wasanaeth rheoleiddiedig

**3.** Rhagnodir bod gwasanaeth preswyl ysgol arbennig yn wasanaeth rheoleiddiedig at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf.

### Darpariaeth drosiannol ar gyfer darparwyr presennol

**4.**—(1) Nid yw adran 5 o'r Ddeddf (gofyniad i gofrestru) yn gymwys i ddarparwr presennol yn ystod y cyfnod trosiannol mewn cysylltiad â gwasanaeth perthnasol.

(**3**) 2018 dccc 2.
(**4**) O.S. 2002/253.
(**5**) 2006 p. 42.
(**6**) 2000 p. 14.
(**7**) 1996 p. 56.

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr cyfnod trosiannol ("*transition period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau â dyddiad dod i rym y rheoliadau hyn ac sy'n dod i ben naill ai—

(a) ar y dyddiad pan fydd y cais i Weinidogion Cymru yn cael ei benderfynu; neu

(b) mewn achos pan fo penderfyniad gan Weinidogion Cymru yn destun apêl i'r tribiwnlys neu apêl ddilynol, ar ddyddiad dyfarniad yr apêl honno neu ddyfarniad unrhyw apêl ddilynol;

ystyr "darparwr presennol" ("*existing provider*") yw person sy'n darparu gwasanaeth preswyl ysgol arbennig yn union cyn dyddiad dod i rym y rheoliadau hyn;

ystyr "gwasanaeth perthnasol" ("*relevant service*") yw gwasanaeth preswyl ysgol arbennig a ddarperir mewn lleoliad sy'n destun cais i gofrestru o dan adran 6 o'r Ddeddf a wnaed i Weinidogion Cymru cyn 1 Gorffennaf 2024;

mae i "y tribiwnlys" ("*the tribunal*") yr un ystyr agyn adran 189 o'r Ddeddf.

**Darpariaeth drosiannol ynghylch dehongli "darpariaeth ddysgu ychwanegol" a "personau ag anghenion dysgu ychwanegol"**

**5.** Yn rheoliad 2(3) mae'r cyfeiriadau at "darpariaeth ddysgu ychwanegol" a "personau ag anghenion dysgu ychwanegol" i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at "special educational provision" a "persons with special educational needs" o fewn ystyr adran 312 o Ddeddf Addysg 1996 am gyhyd ag y mae'r arbediad a wneir gan erthygl 4 o Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022(**8**) yn cael effaith.

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 12.05 p.m. ar 6 Rhagfyr 2023

(**8**) O.S. 2022/891 (Cy. 188). Mae erthygl 4 yn darparu bod Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn parhau i gael effaith ar gyfer plentyn sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig o dan y Bennod honno er ei bod wedi ei diddymu. Yn unol ag erthygl 10, daw'r cyfnod o dan sylw i ben ar ddiwedd blwyddyn ysgol 2023-2024.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi bod y ddarpariaeth o lety a gofal neu nyrsio i ddisgybl ysgol arbennig yn "gwasanaeth rheoleiddiedig" at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") a byddant yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n darparu gwasanaeth o'r fath gofrestru o dan y Ddeddf.

At ddibenion y Rheoliadau hyn, ysgolion, pa un a gânt eu cynnal gan awdurdod lleol ai peidio, sy'n rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yw ysgolion arbennig.

Cyfeirir at y gwasanaeth hwn fel Gwasanaeth Preswyl Ysgol Arbennig.

Mae Rheoliad 4 yn ddarpariaeth drosiannol sy'n atal dros dro effaith adran 5 o'r Ddeddf ar gyfer darparwyr presennol unrhyw wasanaethau preswyl ysgolion arbennig sydd wedi eu cynnwys mewn cais i gofrestru cyn 1 Gorffennaf 2024.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.